# PWYLLGOR PENSIYNAU, 05.07.10

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones (Cadeirydd).
Y Cynghorydd John W. Jones (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr Trevor Edwards, John G. Jones, J.R. Jones

**Aelod Cyfetholedig:-**Y Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

**Swyddogion:-** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cyngor Gwynedd) a'r Cynghorydd Tom Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Keith Greenly-Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2010/11.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John W. Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2010/11.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2010 fel rhai cywir.

**5. COMPASS**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol yr adroddwyd i'r pwyllgor hwn ar 15 Rhagfyr 2009 bod Hymans Robertson wedi datblygu cynnyrch newydd o'r enw Compass fyddai'n galluogi i gymryd golwg tymor hirach ar ragolygon y gronfa pan yn penderfynu ar y raddfa cyflogwr sydd i'w mabwysiadu ar ôl y prisiad sy'n cymryd lle ar hyn o bryd. Yn yr adroddiad hwnnw atgoffwyd y pwyllgor y byddai'r prisiad presennol yn debygol o ddangos gostyngiad sylweddol yn y lefel asedau yn erbyn yr ymrwymiadau oherwydd sefyllfa'r marchnadoedd.

Derbyniwyd yn ddiweddar adroddiad Navigator am y gronfa fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2010 sy'n dangos y sefyllfa hwn yn eithaf eglur.

Cytunodd y pwyllgor y dylid comisiynu adroddiad Compass ar gyfer y gronfa i weld os oes ffordd i sefydlogi cyfraniadau'r cyflogwr, ond ar yr un pryd cydymffurfio gyda'r angen i

sicrhau hyfywdra hir dymor y gronfa ac i gymryd sylw o'r risgiau perthnasol sydd ynghlwm â'r opsiynau sydd ar gael. Derbyniwyd yr adroddiad a thywysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yr aelodau drwy'r adroddiad gan dynnu sylw'n arbennig at y materion canlynol –
a) Mai ffocws yr adroddiad yw i asesu Sefydlogrwydd, Fforddiadwyedd, Gofalaeth a Darbodusrwydd yn gysylltiedig â'r wyth senario y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.
b) Y cyfrifiwyd 5000 canlyniad posibl ar gyfer yr wyth senario ar gyfer cyfnod o 21 mlynedd. Yna fe nodir effaith y tafluniadau yn erbyn y pedwar ffactor asesu y mesurir yn eu herbyn.
c) Sefydlogrwydd – gyda dim sefydlogrwydd mewn lle (sef senario 1 a 6), mae yna botensial uchel i newid mewn bob un prisiad ffurfiol. Yn senarios 2, 4 a 7 byddai'r amrediad o newid yng nghyfraddau'r cyfraniadau rhwng prisiant yn lleihau. Dengys senarios 3,5 ac 8 dim amrywiaeth gan bod cyfraddau'r cyfraniadau wedi eu gosod ar y lefel presennol.
ch) Fforddiadwyedd – dengys senarios 3,5 ac 8 dim amrywiaeth oherwydd bod cyfraddau'r cyfraniadau wedi eu gosod ar wahanol lefelau ac yn ddamcaniaethol heb ystyried ffactorau eraill, 'roeddynt yn fforddiadwy gan y byddai lefel y cyfraniad fel ag y mae ar hyn o bryd. 'Roedd y dewisiadau 2, 4 a 7 yn cyfyngu ar lefelau absoliwt y cyfraniadau posibl tra bod dewis 1 a 6 yn arwain at sefyllfaoedd lle nad oedd y cyfradd cyflogwr yn fforddiadwy.
d) Gofalaeth – senario 6 yw'r un mwyaf diogel gan ei fod yn caniatau mwy o sicrwydd yn yr hir-dymor gyda llai o risgiau. Fodd bynnag, mae senarios 1,2, 4, 5 a 7 i gyd yn debyg o ran y risgiau o gael cronfa'n disgyn yn rhy isel i fedru atgyfodi o ran lefel cyllido. 'Roedd dewisiadau 3 ac 8 yn or eithafol fel y byddai'n anodd eu dewis heb gyflwyno elfen annerbyniol o risg.
dd) Darbodus – bydd angen i'r actiwari fodloni gofynion proffesiynol parthed cario allan brisiad ar sail darbodus. Dengys senarios 3,5 ac 8 bod yna debygolrwydd uchel na fyddai'r cyfraniadau taladwy yn cael eu tystio'n ddarbodus ac felly'n ormod o risg eu gweithredu.

Dangosodd lefel risg cymharol y rhain i gyd ar ffurf tabl a oedd yn nodi os oeddem am gyfarfod â'r amcan o gael sefydlogrwydd, mai senarios 2, 4 neu 7 fyddai'r unig rai y dylid eu hystyried yn wyneb y lefel risg gyda'r gweddill. Fodd bynnag, golygai senario 7 fynd lawr i 60% ecwiti fyddai'n lleihau'r dychweliadau hir-dymor i'r gronfa.

Nododd mai'r cam nesaf yn y broses yw cysylltu gyda'r cyflogwyr perthnasol i drafod y polisi cyfraniadau cyflogwyr perthnasol y dymunir i'r Cyngor ei fabwysiadu, ac er gwneud hynny, mae'n ofynnol i'r pwyllgor ffurfio barn ar pa opsiynau fyddai'n dderbyniol yn ogystal ac unrhyw opsiynau a fyddai'n annerbyniol. Mae'n ofynnol hefyd i'r pwyllgor edrych ar y sefyllfa o ran pa gyflogwyr fyddai'n gymwys i fanteisio ar y gogwydd hir dymor hwn.

Mewn perthynas â chanlyniadau adroddiad Compass, fe nododd yr actiwari nad yw'r mecanwaith sefydlogrwydd ond yn gymwys i gyflogwyr hir-dymor fel cynghorau sydd gyda sicrwydd trethiant y tu cefn iddynt. Bydd yn ofynnol i'r pwyllgor hefyd ystyried a ddylid ymestyn yr opsiynau hyn i unrhyw gyflogwyr eraill, yn ogystal a beth fwriedir ei wneud gyda'r cyflogwyr eraill lle nad yw'r broses yma yn berthnasol iddynt.

**PENDERFYNWYD y dylid ymgynghori gyda chyflogwyr ar y sail, oni bai bod yna faterion eraill yn dod i'r amlwg yn ystod yr ymgynghori, bod y pwyllgor yn tybied y byddai'n fodlon ystyried -**
**i) Senario 2 sy'n caniatau i gyfraniadau gael eu rhewi tan 2011 ac yna sefydlogi lle bydd cyfraniadau'n codi dim mwy na 1% a gostwng dim mwy na 0.5% y flwyddyn o 2011.**

**ii) Senario 4 sy'n caniatau i gyfraniadau sefydlogi lle bydd cyfraniadau'n codi dim mwy na 0.5% y flwyddyn a gostwng dim mwy na 0.5% y flwyddyn o 2011.**

## 6. POLISI BUDDSODDI

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol y derbyniodd Arweinydd y Cyngor lythyr gan Grŵp Cyfiawnder a Heddwch Arfon yn gofyn i'r pwyllgor gadarnhau a oes ganddo fuddsoddiadau mewn cwmniau arfau ac i gael trafodaethau ar y posibilrwydd o beidio a buddsoddi mewn cwmniau o'r fath. Mae'r llythyr hefyd yn gofyn i'r pwyllgor ymatal rhag buddsoddi mewn cwmniau sy'n buddsoddi yn Israel.

Nododd y trafodwyd y mater o fuddsoddi moesegol gan y pwyllgor ar sawl achlysur ac fe'i drafodwyd ddiwethaf yn Rhagfyr 2007 pryd y penderfynwyd *pwyllo ychydig cyn cymryd camau ffurfiol i'r cyfeiriad yma, gofyn i Gwmni Hymans adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf gydag ymdrin â buddsoddi moesegol ac yn benodol, a oes yna unrhyw dystiolaeth ynglyn â dychweliadau cronfeydd moesegol, a chyflwyno adroddiad Hymans i'r pwyllgor hwn.*

Ers hynny, derbyniwyd adroddiad gan Hymans Robertson sy'n cyfeirio at ddefnyddio perchnogaeth cyfranddaliadau mewn ffordd adeiladol ond nid yw'n mynd i wraidd buddsoddi moesegol.

Nodwyd mai'r dyletswydd cyntaf yw sicrhau'r dychweliadau gorau i aelodau'r gronfa. Y farn gyffredinol oedd nad yw'n addas i fynd yn groes i'r dyletswydd cyffredinol i sicrhau dychweliadau gorau ac ystyried buddsoddiadau'n unigol.

**PENDERFYNWYD hysbysu Grŵp Cyfiawnder a Heddwch Arfon bod y gronfa'n dirprwyo'r cyfrifoldeb am ystyried materion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol i'r rheolwyr buddsoddi wrth iddynt asesu potensial ariannol a phriodoldeb eu buddsoddiadau. Dylai'r rheolwyr buddsoddi weithio'n bositif gyda'r cwmniau er mwyn hyrwyddo safonau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol blaengar, yn hytrach na mabwysiadu polisi o sgrinio buddsoddiadau'n negyddol.**

## 7. MONITRO RHEOLWYR BUDDSODDI

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cafodd y Panel Buddsoddi'n ddiweddar brofiad o fonitro Rheolwyr Buddsoddi, lle y gwelwyd hwy'n ailddatgan eu sefyllfaoedd a nodwyd eisoes mewn cyfarfodydd blaenorol o ganlyniad i'r ffaith nad yw eu rhagolygon yn newid tros gyfnodau cymharol fyr. O ganlyniad, cyfyd cwestiynau megis a wneir y defnydd mwyaf effeithiol o amser drwy gyfarfod rheolwyr buddsoddi mor aml, ac a ddefnyddir yr amser yn well drwy gyfarfod rhai rheolwyr penodol yn llai aml ac yn defnyddio mwy o'r amser sydd ar gael i drafod materion perfformiad cyffredinol a dyraniad asedau. Gofynnwyd am farn Hymans Robertson ar y mater ac yng nghyfarfod diwethaf y Panel Buddsoddi fe gyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig ganddynt yn nodi gwahanol opsiynau.

Nododd bod yr aelodau, yn ystod y trafodaethau cychwynnol, o'r farn y dylid newid y drefn gyfredol o gyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r pedwar rheolwr buddsoddi gweithredol sef Capital, Fidelity, Insight ac UBS, gan gael dau mewn un chwarter a dau yn y chwarter nesaf, a gweld y rheolwr goddefol a'r rheolwr ecwiti preifat unwaith y flwyddyn. Byddai perfformiad yr holl reolwyr yn cael ei drafod yn chwarterol a phe byddai rheolwr yn creu pryder i'r Cyngor, yna fe fynnir eu gweld yn amlach. Os yw'r pwyllgor yn dymuno cymryd yr opsiwn hwn, yna ni fyddai'r oll o'r Rheolwyr Buddsoddi ar gael i'r Cyfarfod Blynyddol, ac os mai dyma fyddai'r sefyllfa, byddai'n ofynnol ymgynghori gyda'r cyflogwyr ar y mater, ond ni rhagwelir hyn fel maen tramgwydd.

Awgrymodd hefyd y byddai'n fuddiol cynnal cyfarfod yn achlysurol gyda Blackrock a Partners Group yn Llundain.

Gofynnodd aelod os oes diben i gynnal y Cyfarfod Blynyddol o'r Gronfa Bensiwn yn wyneb y gynrychiolaeth wan a geir yn y cyfarfodydd. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog y gellir adolygu'r sefyllfa yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

**PENDERFYNWYD derbyn opsiwn 1, sef cynnal cyfarfodydd gyda'r pedwar rheolwr buddsoddi gweithredol (Capital, Fidelity. Insight ac UBS) bob chwe mis a gyda'r rheolwr goddefol a'r rheolwr ecwiti preifat unwaith y flwyddyn.**

## 8. DYRANIAD TACTEGOL O ASEDAU

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cynghorwyd y Panel Buddsoddi gan Hymans Robertson yn Nhachwedd 2008 y gallai fod yn fuddiol i gymryd mantais o ledeiniadau credyd ac i symud buddsoddiadau trosodd o gilts i fondiau corfforaethol. Dilynwyd y mater hwn i fyny mewn cyfarfod pellach o'r panel yn Chwefror 2009, ac o ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw, penderfynwyd i newid tactegol o gilts i fondiau corfforaethol er mwyn cymryd mantais o'r gwahaniaethau cymharol yn y cyfraddau llog. Derbyniodd y Panel Buddsoddi adroddiad gan Hymans Robertson yn y cyfarfod diwethaf ar 11 Mai 2010 yn nodi i'r gronfa elwa swm o £4.9m o ganlyniad i'r penderfyniad hwn.

Nododd bod y Cyngor yn ffodus bod uchafbwynt y cyfle wedi parhau o tua Rhagfyr 2008 i Ebrill 2009, sef y cyfnod a gymerwyd i drosi syniad i fod yn weithredol. Pe byddai'r uchafbwynt wedi parhau am gyfnod llai, yna gellid fod wedi colli'r cyfle i symud, a chyfyd hyn y cwestiwn os oes angen sicrhau proses esmwythach pe cyfyd cyfleoedd i'r dyfodol. Derbyniwyd cyngor gan Hymans Robertson ar y mater a rhoddwyd manylion ohono i'r aelodau. Gan gadw mewn cof gyngor Hymans Robertson a bod Cyfansoddiad y Cyngor eisoes yn dirprwyo'r hawl iddo ef i weithredu mewn perthynas ag effeithiau ymarferol strategaeth fuddsoddi'r Pwyllgor Pensiynau, *argymhellodd ddirprwyo'r hawl i weithredu mewn perthynas â rhaniad tactegol o asedau iddo ef, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a'r Panel Buddsoddi (neu Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor os yw trafodaeth gyda'r panel yn amhosibl) ar gyfer unrhyw gyfleoedd ychwanegol y byddai'r ymgynghorwyr buddsoddi (Hymans Robertson) yn eu hadnabod ar gyfer y dyfodol.*

Pan sefydlir Datganiad Strategol Cyllido'r Gronfa o ganlyniad i'r prisiad yn hwyrach eleni, yn unol â chyngor Hymans, bydd angen adnabod y ffiniau awdurdodedig lle gellir gweithredu.

**PENDERFYNWYD dirprwyo'r hawl i weithredu mewn perthynas â rhaniad tactegol o asedau i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol sy'n gyfrifol am y Gronfa Pensiwn. mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a'r Panel Buddsoddi (neu Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor os yw trafodaeth gyda'r panel yn amhosibl) ar gyfer unrhyw gyfleoedd ychwanegol y byddai'r ymgynghorwyr buddsoddi (Hymans Robertson) yn eu hadnabod ar gyfer y dyfodol.**

## 9. DATGANIAD O EGWYDDORION BUDDSODDI

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid y daeth Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2009 (SI. 2009 Rhif 3093) i rym ar 1 Ionawr 2010. Un o ofynion y rheoliadau yw bod awdurdodau gweinyddol Cynlluniau Pensiwn yn paratoi, adolygu a chyhoeddi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (DEB). Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud ychydig o newidiadau i'r gofynion ynglyn â'r DEB.

Hysbysodd y swyddog ei bod yn ofynnol ers 2002 i awdurdodau gweinyddol nodi yn eu DEB i ba raddau y maent yn cydymffurfio â'r deg o egwyddorion Myners a rhoddwyd manylion ohonynt i'r aelodau. Yn 2007/08, comisiynodd Trysorlys Ei Mawrhydi, Gymdeithas Cenedlaethol y Cronfeydd Pensiwn, i wneud adolygiad o ddeg egwyddor Myners a'r canlyniad oedd y dylid cwtogi'r nifer o egwyddorion i chwech a rhoddwyd manylion ohonynt i'r aelodau. Yn 2009, yn dilyn cyfnod ymgynghori, fe fabwysiadwyd y chwech egwyddor, ac mae'r rheoliadau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol nodi yn eu DEB i ba raddau maent yn cydymffurfio gyda'r chwech egwyddor yma.

Nododd ei bod yn ofynnol yn y rheoliadau blaenorol i gyfeirio at risg yn y DEB. Mae'r rheoliadau newydd yn ymestyn hyn i ddogfennu sut mae risg yn cael ei fonitro a'i reoli. Ar sail cyngor a dderbyniwyd gan Hymans Robertson, fe ddogfenwyd sut y bwriedir monitro a rheoli risg ym mharagraff 5.5 o'r DEB.

Nododd hefyd bod y rheoliadau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol nodi eu polisi ar fenthyca stoc. Bydd yn rhaid i'r pwyllgor edrych ar baratoi polisi manwl ar fenthyca stoc yn y dyfodol. Gallai hyn gael ei wneud pan adolygir y DEB nesaf. Yn ogystal fe ddiweddarwyd y DEB yn dilyn y newidiadau diweddar i'r rheolwyr buddsoddi ac i feincnod y gronfa.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi diwygiedig ynghyd â'r egwyddorion buddsoddi diwygiedig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 3.00pm a daeth i ben am 4.15pm